

Mae rhywun yn torri ar fy nhraws!

“Nid oes yma ragor rhwng Groegiaid ac Iddewon, enwaediad a dienwaediad, barbariad, Scythiad, caeth, rhydd; ond Crist yw pob peth, a Christ sydd ym mhob peth.” (adn. 11)

Beth am ddarllen Colosiaid 3:1–17 ac yna myfyrio

Y chydig ddegawdau yn ôl bellach, bu i'r Unol Daleithiau benderfynu symud tuag at integreiddio. Clywyd am un wraig yn siroedd y de yn dweud; “Mae popeth yn cael ei integreiddio, ond diolch i Dduw fod gennym ein heglwysi.” Beth bynnag am y wraig, mae'n amlwg fod yr eglwysi oedd yn meddwl yr un fath â hi yn methu â dilyn dysgeidiaeth yr Arglwydd. Mae'n siŵr eich bod wedi clywed yr hanes am yr Americanwr du a geisiodd fynd i mewn i eglwys wyn. Fe wrthodwyd y gŵr gan y stiwardiaid wrth y drws. Eisteddodd ar y pafin â'i ben yn ei ddwylo, gan ddweud: “Arglwydd, ceisiais fynd i'r eglwys i'th addoli di heddiw, ond ni chefais ganiatâd.” “Paid â phoeni,” meddai'r Arglwydd, “rwyf wedi bod yn ceisio mynd i'r eglwys yma fy hun ers blynnydoedd.” Mae yna un efengylwr yr wyf yn ei adnabod, gŵr sydd wedi ymrwmo i gael gwared â hiliaeth o fewn yr Eglwys, yn adrodd unwaith am ei ymdrech i bregethu mewn eglwys yn Atlanta, Georgia. Dyma un o'r gynulleidfa yn galw: “Fedrwch chi roi adnod i mi yn y Testament Newydd sydd yn cefnogi integreiddio?” Agorodd yr efengylwr ei Feibl a darllen y geiriau yma o Actau 13: “Yn yr eglwys yn Antiochia roedd yna broffwydi ac athrawon, Barnabas a Simeon, a elwid yn Niger...” Cododd y gŵr yn y gynulleidfa, a heb air ymhellach, gadawodd yr eglwys.

Oes yw'r eglwys am ei diwygio, yna mae'n rhaid i'r Eglwys ddod yn gymdeithas sydd yn adlewyrchu'r hyn y mae ein darlleniad heddiw yn ei osod allan. Yn Iesu Grist, ni allwn ganiatáu Groegwr neu Iddew (gwahaniaeth hiliol), barbariad neu Scythiad (gwahaniaeth diwylliannol), caeth neu rydd (gwahaniaeth cymdeithasol neu economaidd), enwaediad neu ddienwaediad (gwahaniaeth crefyddol), neu hyd yn oed, fel y dywed Galatiaid 3:28, ŵr neu wraig. Yr ydym oll yn un gerbron Duw a gerbron dyn.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 10:24–35; 11:1–18; Rhuf. 10:12; Gal. 2:11–21

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha ffordd yr oedd Pedr yn adnabod y cenedl-ddynion?
2. Sut bu i Dduw osod sialens o'i flaen?

Gweddi

O Dad, maddau i ni ein bod wedi caniatáu i wahaniaethau lusgo i mewn i dy Eglwys. Nid felly y bu hi yn yr Eglwys Fore. Caniatâ fod y gwahaniaethau yma yn diflannu o fewn dy Eglwys heddiw ac yfory. Yn enw Iesu. Amen.